Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr - Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 3 Hydref 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

160(v5)

1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni chafwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

NDM6822 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Caroline Jones (Annibynnol) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Neil Hamilton (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig).

NDM6823 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Neil Hamilton (Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

(5 munud)

NDM6817 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Gweithredu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2018.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 21 a 27, a chyflwyno Rheolau Sefydlog newydd 30B a 30C, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

Dogfen Ategol

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - Y pwerau ym Mil yr UE (Ymadael) i wneud is-ddeddfwriaeth - materion gweithredol

6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Deiseb P-04-682 Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc

(60 munud)

NDM6814 David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Ddeisebau ar Deiseb P-04-682, 'Sgrinio Rheolaidd ar gyfer Diabetes Math 1 mewn Plant a Phobl Ifanc', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Gorffennaf 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Medi 2018.

7 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Colli Babanoad

(60 munud)

NDM6801

Lynne Neagle (Torfaen)
David Rees (Aberafan)
Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cefnogwyr
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y bu 263 o fabanod farw neu'n farw-anedig yng Nghymru yn 2016 ac, yn aml, na all teuluoedd yr effeithir arnynt gan golli baban gael mynediad priodol at wasanaethau neu gymorth.

2. Yn croesawu wythnos ymwybyddiaeth colli babanod, a drefnir gan gynghrair o fwy na 60 o elusennau ledled y DU ac a gynhelir rhwng 9 a 15 Hydref 2018 i roi cyfle i godi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd gofal profedigaeth rhagorol i bob rhiant ar ôl colli baban yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl marwolaeth baban.

3. Yn cydnabod bod wythnos ymwybyddiaeth colli babanod hefyd yn rhoi cyfle pwysig i rieni mewn profedigaeth, a'u teuluoedd a'u ffrindiau, uno a choffáu bywydau eu babanod.

4. Yn cydnabod y dylai pob rhiant mewn profedigaeth gael yr un safon uchel o ofal pan fydd baban yn marw, ac er na all gofal da ddileu poen a galar rhieni, gall helpu rhieni drwy'r amser trychinebus hwn.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i wella'r gofal y mae rhieni yn ei dderbyn ar ôl colli baban yn ystod beichiogrwydd neu farwolaeth baban drwy:

a) ymrwymo i ddarparu gwell gofal profedigaeth sydd ar gael i bob rhiant ar ôl colli baban yn ystod beichiogrwydd neu ar ôl marwolaeth baban, a gwella'r gofal hwnnw;

b) mabwysiadu set graidd o safonau ar gyfer gofal profedigaeth sydd wedi'u defnyddio i ategu'r Llwybr Gofal Profedigaeth Cenedlaethol yn ardaloedd eraill y DU;

c) gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltiad â rhieni mewn profedigaeth yn cael hyfforddiant gofal profedigaeth.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Marwolaeth plant yng Nghymru a Lloegr yn 2018 (Saesneg yn unig)

8 Dadl Plaid Cymru - Pleidlais y Bobl

(60 munud)

NDM6816 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu y dylid cynnal pleidlais y bobl drwy refferendwm y DU-gyfan ar delerau terfynol ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn credu bod yn rhaid parchu canlyniad refferendwm y DU gyfan ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn nodi bod pobl Cymru wedi pleidleisio i adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi Llywodraeth y DU yn y gwaith o ddiogelu uniondeb y Deyrnas Unedig wrthi inni adael yr UE.

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]

Gwelliant 2 - Gareth Bennett (Canol De Cymru)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod mai ewyllys pendant y bobl yw bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, fel a fynegwyd mewn refferendwm a gynhaliwyd llai na 27 mis yn ôl.

2. Yn galw ar wleidyddion y Deyrnas Unedig sydd yn erbyn gadael yr UE i barchu dymuniadau pleidleiswyr Cymru a Phrydain a fynegwyd yn ddiweddar a rhoi'r gorau i geisio tanseilio proses Brexit.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau'r fargen orau i Gymru a'r DU, y tu allan i'r UE, y farchnad sengl a'r undeb tollau.

[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]

Gwelliant 3 – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl "credu" a rhoi yn ei le:

bod yn rhaid cadw'r opsiwn o gynnal pleidlais y bobl, a hynny'n enwedig os na fydd Prif Weinidog y DU yn gallu sicrhau cytundeb ar delerau terfynol ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac na fydd etholiad cyffredinol yn dilyn hynny. Os felly, rhaid i'r bobl benderfynu ar y ffordd ymlaen.

9 Cyfnod pleidleisio

10 Dadl Fer

(30 munud)

NDM6815 Nick Ramsay (Mynwy)

Gweld pethau'n wahanol – byw gyda cholli golwg yng Nghymru heddiw.

Sut y gallwn ddileu'r hyn sy'n rhwystro pobl ddall a rhannol ddall rhag cyfranogi'n gyfartal i gymdeithas.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 9 Hydref 2018

Eitem 1

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26/09/2018 i'w hateb ar 03/10/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

1 OAQ52689

(w)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ardoll cig coch Cymru?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

2 OAQ52681

(e)

Pa sicrwydd y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei roi y bydd amddiffyniad safleoedd morol Ewropeaidd yng Nghymru yn cael ei gynnal ar ei lefel gyfredol ar ôl i'r DU adael yr UE?

David J. Rowlands *Dwyrain De Cymru*

3 OAQ52658

(e)

Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhoi i newid cyfreithiau cynllunio er mwyn ymdrin â chyflwr siopau gwag yng nghanol trefi?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ52679

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am osod teledu cylch cyfyng mewn lladd-dai?

Dawn Bowden *Merthyr Tudful a Rhymni*

5 OAQ52672

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â strategaeth Llywodraeth Cymru yn erbyn tipio anghyfreithlon?

Jenny Rathbone *Canol Caerdydd*

6 OAQ52669

(e)

Beth yw'r her fwyaf sy'n wynebu Llywodraeth Cymru o ran cyflawni ei tharged gostwng carbon ar gyfer 2030?

Neil McEvoy *Canol De Cymru*

7 OAQ52684

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am weithdrefnau trwyddedu morol Llywodraeth Cymru?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

8 OAQ52670

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol saethu adar hela ar dir sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru?

Suzy Davies *Gorllewin De Cymru*

9 OAQ52695

(e)

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch effaith y system gynllunio ar adeiladu tai yng Ngorllewin De Cymru?

Sian Gwenllian *Arfon*

10 OAQ52685

(w)

Pa astudiaethau effaith sydd wedi'u cwblhau o oblygiadau cynigion ‘Brexit a’n tir’ ar gyfer yr iaith Gymraeg?

Mick Antoniw *Pontypridd*

11 OAQ52662

(e)

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i safbwyntiau darparwyr gofal iechyd yn ystod y broses gynllunio?

Lee Waters *Llanelli*

12 OAQ52654

(e)

Pa ddadansoddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r cyfleoedd a amlinellir yn adroddiad diweddar y Sefydliad Materion Cymreig, 'The Economic Impact of Energy Transition in Wales'?

Tudalen y pecyn 2

Andrew R.T. Davies *Canol De Cymru*

13 OAQ52665

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am reoli tir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru?

Helen Mary Jones *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

14 OAQ52677

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y camau nesaf yn dilyn cwblhau'r ymgynghoriad ar bolisi echdynnu petrolewm yng Nghymru?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

15 OAQ52688

(w)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau dyfodol y diwydiant llaeth?

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

1 OAQ52692

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y dyraniad cyllideb ar gyfer cynghorau yng ngorllewin Cymru dros y flwyddyn ariannol nesaf?

David Rees *Aberafan*

2 OAQ52694

(e)

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch dyfodol y gwasanaeth prawf yng Nghymru?

Bethan Sayed *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ52690

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu blaenoriaethau setliad ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

4 OAQ52691

(w)

Tudalen y pecyn 3

Pa gyngor y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei roi i gynghorau lleol sy'n wynebu torri gwasanaethau?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ52682

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i atal tanau trydanol?

John Griffiths *Dwyrain Casnewydd*

6 OAQ52668

(e)

Beth yw asesiad Ysgrifennydd y Cabinet o berfformiad byrddau gwasanaethau cyhoeddus?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ52675

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc?

Helen Mary Jones *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ52674

(e)

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael ynghylch fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i ddyrannu arian i gynghorau?

Neil Hamilton *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OAQ52676

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i gyn-filwyr?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

10 OAQ52686

(w)

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnig i Ynys Môn i baratoi ar gyfer cyflwyno credyd cynhwysol ym mis Rhagfyr?

David Rees *Aberafan*

11 OAQ52693

(e)

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r setliad dros dro ar gyfer awdurdodau lleol yn y gyllideb sydd i ddod?

Tudalen y pecyn 4

Darren Millar *Gorllewin Clwyd*

12 OAQ52666

(e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir ledled Cymru?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

13 OAQ52660

(e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau tryloywder ac atebolrwydd mewn llywodraeth leol?

Hefin David *Caerffili*

14 OAQ52683

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp cynghori gweinidogol ar lesddeiliaid?

Mick Antoniw *Pontypridd*

15 OAQ52663

(e)

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?